wPecyn Dogfen Cyhoeddus

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyngor Sir | Dyddiad: | 29 Hydref 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824712589 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 6 TACHWEDD 2012** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 **DYDDIADUR Y CADEIRYDD** (Tudalennau 5 - 6)

I nodi'r ymrwymiadau dinesig a ymgymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi'n atodol).

5 **COFNODION** (Tudalennau 7 - 20)

I dderbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar Hydref 9, 2012 (copi'n amgaeedig).

6 **PENODI AELODAU LLEYG I'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 21 - 22)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Swyddog Monitro (copi'n amgaeedig) yn cymeradwyo penodi dau aelod lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.

7 **SWYDDOGAETH PENCAMPWYR** (Tudalennau 23 - 34)

I ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi'n amgaeedig) ynglŷn â phenodi aelodau i weithredu fel Pencampwyr ar gyfer meysydd arbennig.

8 **DIWEDDARIAD AR DDIWYGIO LLES** (Tudalennau 35 - 42)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau (copi'n amgaeedig) yn nodi effaith cyfredol Diwygio Lles ar Sir Ddinbych a'i effaith yn y dyfodol.

9 **BLAENRAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 43 - 46)

I ystyried blaenraglen waith y Cyngor (copi'n amgaeedig).

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**EXCLUSION OF PRESS AND PUBLIC**

Cymeradwyir, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, yn cael ei datgelu iddyn nhw.

10 **CYNLLUN CYFALAF 2012/13 - 2015/16** (Tudalennau 47 - 82)

I ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn diweddaru aelodau ar elfen 2012/13 y cynllun cyfalaf yn cynnwys diweddariad ar brosiectau mawr.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy-Davies
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Margaret McCarroll
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Allan Pennington
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman 27.09.12 – 22.10.12**

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event | Lleoliad / Location |
|---|---|---|
| 27.09.12 | Penblwydd Priodas 60 mlynedd Mr & Mrs Grube<br>60th Wedding Anniversary Mr & Mrs Grube<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Llanelwy<br>St Asaph |
| 27.09.12 | Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru<br>North Wales International Music Festival<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Llanelwy<br>St Asaph |
| 30.09.12 | Sioe ‘Superkids’ Gogledd Cymru<br>North Wales Superkids Show<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Yr Wyddgrug<br>Mold |
| 01.10.12 | Seremoni Dinasyddiaeth<br>Citizenship Ceremony<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Rhuthun<br>Ruthin |
| 07.10.12 | Dathliad Ordeiniad 40 mlynedd Canon John Glover<br>Celebration Service – 40th Anniversary Ordination<br>Canon John Glover<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Rhyl |
| 12.10.12 | Gwobrau Eich Pencampwyr<br>Your Champions Awards | Llandudno |
| 19.10.12 | Swper Elusennol Maer Wrecsam<br>Mayor of Wrexham Charity Dinner | Wrecsam<br>Wrexham |
| 19.10.12 | Diolchgarwch - Sioe Sir Ddinbych a Fflint<br>Denbighshire & Flintshire Show - Harvest Festival<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Llanelwy<br>St Asaph |
| 19.10.12 | Gŵyl Fwyd 2012<br>Food Festival 2012<br>(Is Gadeirydd wedi mynychu / Vice Chairman attended) | Llangollen |
| 22.10.12 | Lansiad Cronfa Waddol Gymunedol<br>Launch of the Community Endowment Fund | Rhuthun<br>Ruthin |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun Ll15 1YN, Dydd Mawrth, 9 Hydref 2012 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, Raymond Bartley, Brian Blakeley, Joan Butterfield, William Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Bob Murray, Peter Owen, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Barbara Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cwsmeriaid (HW); Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW), Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad (AS), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Uwch Gyfreithiwr (LJ), Rheolwr Gwella Corfforaethol (TW), Rheolwr Polisi Cynllunio (AL), Swyddog Polisi Cynllunio (BB), Rheolwr Cydwasanaethau (CR) a Gweinyddydd Pwyllgorau (CIW).

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd J. Chamberlain-Jones, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd J.R. Bartley.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddiflaniad April Jones o Fachynlleth yn ddiweddar, a safodd yr Aelodau a swyddogion i dalu teyrnged tawel.

**GWEDDI**

Cynigiwyd gweddi gan y Cynghorydd M.Ll. Davies cyn dechrau'r cyfarfod. Talodd y Cynghorydd M.Ll. Davies deyrnged i'r Parchedig Morris Jones Morris a fu farw yn dilyn damwain ffordd drasig ger Dolgellau nos Sul.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Chamberlain-Jones (Cadeirydd), J.M. Davies, P.A. Evans, E.A. Jones, W.M. Mullen-James, B. Mellor, D. Owens, T.M. Parry, A.G. Pennington, D. Simmons a D.I. Smith.

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Nodwyd y buddiannau isod yng nghyswllt eitemau busnes i'w hystyried yn y cyfarfod.

Gwnaeth y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Janet Ann Davies, T. Rhys Hughes, Bill Tasker a Geraint Lloyd-Williams ddatgan budd personol yn Eitem

Agenda 9 – Ymateb y Cyngor i Adolygiadau Gwasanaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau a ddylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Dosbarthwyd rhestr o ddigwyddiadau ac achlysuron dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar ran y Cyngor yn ystod y cyfnod 3 Awst i 20 Medi â phapurau'r cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** – derbyn a nodi'r rhestr o ddigwyddiadau ac achlysuron dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar ran y Cyngor.*

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2012.

Cywirdeb:-

6. Adolygiadau Gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol – esboniodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts ei fod wedi cyflwyno cwestiwn yn gofyn am fanylion gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am y dystiolaeth a ddarparwyd yng nghyswllt y penderfyniad i ddewis Inffyrmari Dinbych yn hytrach nag Ysbyty Rhuthun fel canolfan darparu gwasanaethau.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, gadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Medi 2012 fel cofnodion cywir.*

**6 ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2011/2012**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol, a oedd yn gofyn am gymeradwyo ffurf drafft Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 y Cyngor, â phapurau'r cyfarfod.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei berfformiad erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, ac roedd angen penderfyniad i gymeradwyo'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12, a gynhwyswyd fel Atodiad I i'r adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd B.A. Smith, ac esboniodd bod Cynllun Corfforaethol 2009-12 yn gosod cyfeiriad strategol yr Awdurdod a bod cyhoeddi'r Ddogfen Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2011-12 yn amlinellu sut y bwriedir cyfrannu at gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Gwnaeth pob gwasanaeth yn y Cyngor gynhyrchu cynllun gwasanaeth ar gyfer 2011-12 yn disgrifio sut roedd yn bwriadu cyfrannu at gyflawni'r deilliannau cytunedig ar gyfer cymunedau Sir Ddinbych. Roedd yr adroddiad Perfformiad Blynyddol yn darparu gwerthusiad yn

edrych yn ôl ar lwyddiant y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y cynlluniau yn ystod 2011-12, ac yn dangos a wnaeth y Cyngor lwyddo i gyflawni ei ymrwymiad i wneud trefniadau i sicrhau gwella parhaus.

Roedd yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad penodol o lwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol. Arfarnwyd y perfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad a mesuryddion perfformiad allweddol, gan nodi sut roedd y blaenoriaethau corfforaethol wedi cael effaith yn lleol yn chwe ardal Sir Ddinbych. Roedd y Cyngor wedi gwireddu ei addewid i fod yn Gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, yn agos at ei gymuned, ac esboniodd y Cynghorydd Smith y llwyddwyd â'r nod o ddarparu trosolwg gonest a chytbwys o berfformiad y Cyngor. Roedd nifer o heriau'n parhau, ac roedd y rhain wedi ffurfio sylfaen datblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd.

Cynhwyswyd manylion am yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, cadarnhawyd na chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng nghyswllt yr adroddiad hwn.

Darparwyd yr ymatebion a ganlyn i gwestiynau a materion gan yr Aelodau:-

- Tudalen 22 – cytunodd y swyddogion i sicrhau y byddai'r adran yn cyfeirio at ieithoedd yn yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei diwygio gyda'r Gymraeg wedi ei gosod o flaen y Saesneg, yn unol â pholisi'r Cyngor.
- Tudalen 24, Ffyrdd a chynlluniau Atal rhag Llifogydd – cytunodd y swyddogion gael eglurhad a darparu manylion ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru i gynlluniau lleddfu llifogydd yn y Rhyl a Chorwen.
- Tudalen 25, Meysydd Blaenoriaeth, Priffyrdd – Hysbysodd y Prif Weithredwr yr Aelodau y byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a'r Cabinet i beidio â bwrw ymlaen â chyfuno Adrannau Priffyrdd Sir Ddinbych a Chonwy. Cadarnhaodd na fyddai hyn yn effeithio ar y buddsoddiad a wnaed gan Sir Ddinbych, a sicrhaodd yr Aelodau y byddai'r prosiect dan sylw yn ddiogel. Ymatebodd y Prif Weithredwr i bryderon a fynegwyd gan yr Aelodau, ac esboniodd na ddylid cyfleu'r sefyllfa fel cydweithredu'n methu, ond yn hytrach edrych arno fel Sir Ddinbych wedi bod yn rhagweithiol wrth asesu ac ymateb i'r opsiynau ar gael.
- Tudalen 63, Ardal Dinbych – cytunwyd y byddai swyddogion yn cael eglurhad ac yn darparu manylion ynghylch cyllid Tai Clwyd ar gyfer y datblygiad yn ymwneud ag adleoli'r Gwasanaeth Ieuenctid. Cadarnhaodd y Cynghorydd C.L. Hughes nad oedd y cyllid wedi ei sicrhau hyd yma.
- Tudalen 25, Maes blaenoriaeth, Priffyrdd – Esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd safbwynt y Llywodraeth o ran cyflwyno cydweithredu wedi newid, ac onibai ei fod yn cael ei ddatblygu'n wirfoddol gellid gorfodi hyn mewn ffyrdd eraill. Diben y cydweithredu oedd cyflawni arbedion sylweddol. Fodd bynnag, byddai goblygiadau ariannol ynghlwm â chyfuno i ddechrau, ac yn achos yr adrannau Priffyrdd ystyriwyd bod y rhain yn anghynaliadwy. Hefyd byddai angen cefnogaeth wleidyddol a gweithredol gan yr holl bartïon yn ymwneud â hyn er mwyn sicrhau llwyddiant.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd J. Butterfield at Ddangosyddion Perfformiad a oedd yn datgelu na chyrhaeddwyd blaenoriaethau, a bod disgyblion wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau priodol. Cefnogodd y Cynghorydd E.W. Williams y farn a

fynegwyd gan y  Cynghorydd J. Butterfield ynghylch yr angen i roi'r gwelliannau yn Ysgol Uwchradd y Rhyl ar gwrs carlam ac awgrymodd anfon sylwadau at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ryddhau cyllid ar gyfer y gwaith gwella'r ysgol.

- Tudalen 30, Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, yn agos at ei gymunedau – cadarnhaoedd y Rheolwr Gwella Corfforaethol y farn a fynegwydd gan y Cynghorydd J. Butterfield am bwysigrwydd gwella'r berthynas waith rhwng Aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor a'r gymuned.
- Tudalen 15, Adfywio – Esboniodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol bod mesuriadau perfformiad yng nghyswllt y tai aml-feddiannaeth a aeth trwy'r broses drwyddedu wedi eu cynnwys fel gwyrdd oherwydd goresgyn y targed a osodwyd. Fodd bynnag, esboniodd y byddai'r holl ddangosyddion a mesuriadau yn cael eu hadolygu i'w cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol newydd mewn ymgais i sicrhau'r trothwy sy'n ofynnol ar gyfer rhagoriaeth.
- Tudalen 19, Newid Demograffig – Eglurwyd bod y Dangosydd Perfformiad ynghylch Pobl â gefnogir o dan 60% y llinell tlodi, a ddangoswyd yn goch, yn gamarweiniol gan ei fod yn mesur gweithgarwch yr Uned Hawliau Lles yn unig, ac nid oedd yn cynnwys y gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud. Cyfeiriodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad at y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, a nodwyd fel blaenoriaeth, ynghyd â'r Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n cael ei hyrwyddo gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.
- Mesuriadau Perfformiad, Pobl a gefnogir o dan 60% y llinell dlodi. Mae'r Tîm Hawliau Lles yn gweithio'n dda â Chyngor ar Bopeth. Dylai Siop Cyngor ar Fudd-daliadau'r Rhyl ddarparu mwy o gymorth ac adnabod ac ymdrin â'r newidiadau i fudd-daliadau.
- Tudalen 66, Rhuthun, Prosiect Cae Ddol – cytunodd y Rheolwr Gwella Corfforaehtol i adolygu'r sefyllfa o ran Cael Ddol er mwyn sicrhau cywirdeb.
- Tudalen 35, Newid Demograffig – Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd Feeley ynghylch y gwahaniaeth rhwng y data a'r targed ar gyfer Taith i Waith: Nifer y bobl a gefnogwyd fel nad ydynt heb fod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth cytunwyd i adrodd yn ôl ar hyn wrth y Cynghorydd Feeley. Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles y problemau o ran sicrhau cyllid Ewropeaidd, yn enwedig yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd, a chyfeiriodd at y targedau penodol a amlinellir yn yr adroddiad.
- Tudalen 61, Canolfan y Dderwen, Y Rhyl – cytunodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol i adolygu'r sefyllfa o ran Canolfan y Dderwen, y Rhyl, a sicrhau cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf yn yr adroddiad.
- Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd C. Guy-Davies am swmp y wybodaeth fanwl a gynhwysir yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, esboniodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych gyhoeddi gwybodaeth a'i bod yn anodd cynnal cydbwysedd. Serch hynny, gellid ystyried darparu crynodeb i gyd-fynd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y gwaith caled a wnaed i gynhyrchu'r fath adroddiad cynhwysfawr.

***PENDERFYNWYD –** yn amodol ar y newidiadau uchod, bod y Cyngor yn cymeradwyo ffurf drafft yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 er mwyn galluogi ei gyfieithu a'i gyhoeddi cyn 31 Hydref 2012.*

**7 CYNLLUN CORFFORAETHOL 2012-2017**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol, a oedd yn gofyn am gymeradwyo fersiwn ddrafft Cynllun Corfforaethol 2012-17 y Cyngor, â phapurau'r cyfarfod. Hysbyswyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol cael penderfyniad i gymeradwyo fersiwn ddrafft derfynol Cynllun Corfforaethol 2012-17, ynghlwm fel Atodiad I yr adroddiad.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd H.H. Evans, yr adroddiad ac esboniodd, er nad oedd y gwaith o wella Sir Ddinbych wedi'i gwblhau eto, roedd y sylfeini yn eu lle yn awr a gellid gwireddu'r dyheadau. Amlinellwyd llwyddiannau o Gynllun Corfforaethol 2008/12 a chyfeiriwyd at yr Awdurdod yn cyrraedd y nod o fod yn Gyngor sy'n perfformio ar lefel uchel, ac roedd cyfleoedd i wella wedi eu hadnabod hefyd. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ddwy her ymarferol yn y Cynllun, sef yr angen i fonitro a mesur effeithlonrwydd y blaenoriaethau, a sicrhau bod y Cynllun Corfforaethol yn ymateb i anghenion trigolion. Pwysleiswyd gwerthoedd allweddol Sir Ddinbych - Undod, Parch, Uniondeb a Balchder - wrth yr Aelodau.

Esboniodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun Corfforaethol yn ddogfen strategol lefel uchel a ddatblygwyd i lywio cyfeiriad y Cyngor am y pum mlynedd nesaf, gyda'r buddsoddiad o £134m i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol, yn cynnwys buddsoddiad sylweddol o £97 miliwn mewn addysg. Paratowyd y Cynllun Corfforaethol yn unol â'r polisi a'r cyd-destun ariannol i Awdurdodau Lleol Cymru, ac roedd yn diffinio prif flaenoriaethau strategol y Cyngor ac yn nodi ei uchelgais i'r dyfodol yn glir. Roedd y Cyngor wedi'i weddnewid yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, a bellach yn cael ei ystyried yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol, ac eglurodd y Prif Weithredwr ei fod yn hyderus y byddai'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnal y safonau uchel sy'n cael eu cyflawni yn awr, gydag arweinyddiaeth wleidyddol ac arweinyddiaeth swyddogion yn elfen hanfodol bwysig ar gyfer sicrhau llwyddiant.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Cynllun Corfforaethol drafft yn edrych ar y meysydd allweddol a ganlyn:-

- Gwella perfformiad ym maes addysg a gwella ansawdd adeiladau ysgolion
- Datblygu'r economi leol
- Gwella ffyrdd
- Diogelu pobl fregus a'u galluogi i fyw mor annibynnol ag y bo modd
- Strydoedd glân a thaclus
- Sicrhau mynediad i dai ansawdd da
- Moderneiddio'r cyngor er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwella'r gwasanaethau i gwsmeriaid.

Byddai'r prif gynigion buddsoddi yn ystod y cyfnod pum mlynedd yn cynnwys:-

- £97 miliwn i wella adeiladau ysgolion, cynnal adolygiadau ardal, ailwampio a gwelliannau eraill i ysgolion
- buddsoddi £10.4 miliwn yn y ffyrdd
- buddsoddi £21 miliwn mewn tri cynllun gofal ychwanegol yn y sir

- buddsoddi £2 filiwn i roi hwb i'r economi
- buddsoddi £4 miliwn mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a swyddfeydd.

Rhagwelir y bydd grantiau gan Lywodraeth Cymru yn cynorthwyo â chyllido gwaith cynlluniedig i wella ysgolion a ffyrdd, gyda phartneriaid eraill yn debygol o gyfrannu at y prosiectau tai gofal ychwanegol cynlluniedig. Byddai cyfanswm o £78 miliwn yn dod o ystod o ffynonellau, yn cynnwys cyllid wedi'i sicrhau trwy fenthyca darbodus.

Esboniodd y Prif Weithredwr bod y Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio'n glir ar wella gwasanaethau i gwsmeriaid, gyda'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn fwy ymatebol i anghenion cwsmeriaid. Byddai cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn gweddnewid bywydau pobl yn Sir Ddinbych ac yn creu gwaddol i'r dyfodol. Cadarnhaodd y bwriedir ymdrin â phob un o'r blaenoriaethau mewn ffordd wahanol, ag amserlenni gwahanol a gwahanol ofynion o ran buddsoddiad ariannol. Byddai gan y blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar yr economi ac addysg amserlen sy'n mynd y tu hwnt i bum mlynedd y Cynllun. Disgwylir cynnydd go iawn yn y meysydd blaenoriaeth hyn, gyda'r budd llawn i'w gweld y tu hwnt i 2017.

Byddai'r angen i fod yn fwy cost effeithiol yn hanfodol trwy gyflwyno dulliau gweithio hyblyg. Byddai cyflawni'r agenda moderneiddio yn allweddol o ran diogelu gwasanaethau rheng flaen a diogelu swyddi, a bydd y flaenoriaeth hon yn bwysig fel sylfaen i flaenoriaethau eraill y Cyngor hefyd.

Gofynnodd y Cynghorydd B.A. Smith i'r Aelodau roi sylw i'r broses fonitro, a gynhwyswyd yn yr adroddiad, sy'n ddogfen weithiol.

Amlinellwyd effaith potensial maint y cyllido yn y Cynllun Corfforaethol, a oedd yn cynrychioli newid enfawr i'r Awdurdod, gan y Cynghorydd J. Thompson-Hill. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau, er bod y Cynllun yn uchelgeisiol y gellid ei gyflawni, ac y byddai'n cynorthwyo i hybu'r economi. Hefyd cadarnhaodd y gellid addasu'r Cynllun yn y dyfodol, petai angen, er mwyn ymateb i unrhyw ffactorau allanol.

Nid oedd y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys manylion am bopeth y byddai'r Cyngor yn ei wneud yn ystod y cyfnod i gefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol. Y bwriad yw i'r Cynllun Corfforaethol fod yn ddogfen hygyrch ac ni chynhwyswyd manylion am yr holl ddangosyddion a mesuriadau perfformiad a ddefnyddiwyd i werthuso llwyddiant y Cyngor. Byddai dogfen ar wahân yn diffinio'r dulliau monitro'r Cynllun yn cael ei chyhoeddi, a byddai Dogfen Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei chynhyrchu'n flynyddol i ddarparu manylion am yr hyn y disgwylir i'r Cyngor ei gyflawni yn y flwyddyn ariannol benodol honno i gefnogi'r blaenoriaethau.

Mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth yr Aelodau, esboniodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad y darparwyd crynodeb o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd a chyhoeddwyd set ddrafft o flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Roedd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad 2. Estynnwyd y cyfnod ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned a dosbarthwyd rhestr lawn o'r adborth, ynghyd ag un ymateb arall i'r ymgynghoriad, i'r Aelodau. Roedd y Tîm Gwella Corfforaethol yn ystyried blaenoriaethau eraill a nodwyd gan Aelodau unigol yn ystod y sesiwn ar y Cynllun Corfforaethol, a byddai dogfen yn dangos sut mae'r

gwasanaethau'n ymateb i'r blaenoriaethau hynny ar hyn o bryd yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau. Roedd Atodiad 3 yn cynnwys casgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y Cynllun Corfforaethol 2012-17 drafft, a wnaed gan y Tîm Gwella Corfforaethol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau perthnasol.

Rhoddwyd yr atebion isod i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau yng nghyswllt y Cynllun Corfforaethol:-

- Tudalen 87 – Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd M.Ll. Davies, cytunodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol i adolygu'r geiriad ynghylch y costau.
- Tudalen 94, Pobl fregus yn byw'n annibynnol – hysbyswyd yr Aelodau bod ansicrwydd ynghylch nifer y cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol i'w darparu yn y sir a dyma'r rheswm am y geiriad presennol.
- Tudalen 105, Mynwentydd – mynegodd y Cynghorwyr J. Butterfield ac A. Roberts bryder am ddiffyg plotiau beddau ym Mynwentydd y Rhyl a Rhuddlan, ac agweddau diogelwch cerrig beddau o ran bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch. Esboniodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad y cynhaliwyd proses ymgynghori ar y mater hwn a byddai sylwadau'r Aelodau yn cael eu nodi a'u cyfeirio at y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol.
- Mewn ymateb i gwestiynau oddi wrth y Cynghorwyr W.L. Cowie a R.L. Feeley ynghylch yr angen am weithredu gorfodol yng nghyswllt baw cŵn, troseddau parcio'n anghyfreithlon a chynnwys ysgolion yn yr ymgyrch Glân a Thaclus, esboniodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad mai'r ffordd orau o ymdrin â'r materion hyn fyddai'n gorfforaethol trwy orfodaeth, addysgu'r cyhoedd a newid agweddau a diwylliant.
- Tudalen 115, Datblygu'r Economi Leol – Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd C.L. Hughes am yr angen i bwysleisio'r gair "lleol" a sicrhau gwasanaethau busnesau lleol, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau bod caffael yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth. Serch hynny, roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar y strategaeth gaffael.
- Tudalen 82 – Gofynnodd y Cynghorydd S.A. Davies am fanylion y costau ynghlwm â darparu cyfieithiadau. Esboniodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol y cafwyd dau gais yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf am gyfieithiaid i ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg neu'r Saesneg, ac mai dim ond gwybodaeth yn ymwneud â'r cwestiynau penodol a gyfieithwyd.
- Ymatebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies a chadarnhaodd bod cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol a ddarparwyd gan Sir Ddinbych yn llawn. Cadarnhaodd nad oedd hi'n rhagweld unrhyw broblemau yn denu pobl i fyw yn y datblygiadau newydd arfaethedig a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.
- Mewn ymateb i faterion a nodwyd gan y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts ynghylch eglurder o ran gwireddu'r cynigion, esboniodd y Prif Weithredwr bod Cyngor Sir Ddinbych wedi darparu amlinelliad clir o'i fwriadau. Fodd bynnag, dan amgylchiadau penodol byddai unrhyw newidiadau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, megis newidiadau i gyllid grant, yn medru dylanwadu ar gyflawni'r cynigion a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol. Hefyd esboniodd, oherwydd gofynion cyhoeddi roedd agendâu cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi cyn ystyried materion mewn cyfarfodydd, a chyfeiriodd yn benodol at y Blaen Raglen Waith, ac roedd hyn yn rhoi cyfle i'r wasg a'r cyfryngau gyhoeddi straeon cyn i'r Aelodau drafod y mater.

- Esboniodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd E.W. Williams, bod nifer y blaenoriaethau a nodwyd yn cael eu monitro gan Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd cadarnhaodd bod mwy o strwythur a ffocws i'r blaenoriaethau yn awr.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd T.R. Hughes bwysigrwydd sicrhau bod adroddiadau diweddariad a chynnydd ar y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w monitro. Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill y byddai adroddiadau am y Cynllun Cyfalaf yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn chwarterol. Eglurodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad y byddai Adroddiad Perfformiad Chwarterol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a Chraffu, ynghyd â chyhoeddi'r ddogfen flynyddol Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn amlinellu'r gefnogaeth i'w darparu i'r Cynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ddilynol.
- Cadarnhaodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad bod mater cysylltiadau cyhoeddus a chyfleu a chyfathrebu'r negeseuon yn y Cynllun Cyfalaf, a gwaith y Cyngor yn gyffredinol, yn hanfodol bwysig.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth unfrydol i'r argymhelliad yn yr adroddiad, a:-

***PHENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar y newidiadau y cytunwyd arnynt, bod y Cyngor yn cymeradwyo drafft terfynol Cynllun Corfforaethol 2012-17 i alluogi cyfieithu a chyhoeddi'r ddogfen.*

**8 ADRODDIAD AR YMGYNGHORI YNGHYLCH Y DDOGFEN CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL SAFLE TREFTADAETH Y BYD**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Adfywio a Rheoleiddio, ynghylch yr ymgynghoriad ar y ddogfen Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd, â phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynwyd crynodeb manwl o'r adroddiad gan yr Aelodau Arweiniol Twristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, y Cynghorydd H.L. Jones, ac esboniodd bod Cyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol, â'r nod o esbonio polisïau yn y Cynllun Datblygu Unedol yn fanylach. Roedd Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn ceisio ehangu ar bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd, petai'r cynllun yn cael ei ystyried yn un 'cadarn' gan yr Arolygiaeth Gynllunio a'i fabwysiadu'n ffurfiol yn lle'r Cynllun Datblygu Unedol.

Gofynnwyd am benderfyniad ar fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd er mwyn galluogi ei ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Byddai'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn cynorthwyo'r cyhoedd, datblygwyr, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorwyr a swyddogion i ddeall y goblygiadau ynghlwm â datblygu yn ardal Safle Treftadaeth y Byd a'r 'llain glustogi' amgylchynol.

Esboniodd y Rheolwr Polisi Cynllunio y penderfynwyd ar Safle Treftadaeth y Byd a'r Llain Glustogi, a'u dynodi yn ddiweddarach, yn 2009 ac na ellid ei newid. Ers 2009

roedd yr effaith y byddai datblygiad yn ei gael ar Safle Treftadaeth y Byd a'r Llain Glustogi wedi bod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Nid oedd wedi effeithio ar y datblygiadau y gellid eu gwneud heb yr angen am ganiatâd cynllunio, na chyflwyno'r angen am Ddatganiadau Mynediad a Dylunio a oedd yn ofyniad cenedlaethol a gyflwynwyd yn 2009.

Dyfarnwyd statws Safle Treftadaeth y Byd i Ddyfrbont a Chamlas Pontcysyllte gan UNESCO (United Nations Educational Scientific and Cultural Organisation) ym mis Mehefin 2009, yn dilyn cydnabod ei Werth Cyffredinol Eithriadol arwyddocaol i'r ddynoliaeth gyfan. Sefydlwyd y 'Llain Glustogi' i ddiffinio'r ardal amgylcheddol sy'n cyfrannu at 'Werth Cyffredinol Eithriadol' y safle.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd T.R. Hughes am arwyddocâd Dyfrbont Pontcysyllte i'r Canllawiau Cynllunio Atodol, pwysleiswyd bod y cais wedi'i ehangu i gynnwys y Gamlas a Rhaeadr y Bedol (Horseshoe Falls) i gynnwys eu cyfraniad i'r Dyfrbont.

Cadarnhawyd bod y Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd wedi eu paratoi ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Swydd Amwythig. Amcan yr Awdudodau Cynllunio Lleol sy'n gyfrifol am ddiogelu'r Safle Treftadaeth oedd rheoli datblygu mewn modd cadarnhaol, a oedd yn cefnogi'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun Rheoli.

Cytunwyd ar gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft a'r cwmpas a'r bwriad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio ym mis Awst 2011. Rhoddwyd crynodeb o'r materion yn y 10 ymateb a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng 26 Medi a 16 Rhagfyr 2011, yn yr adroddiad. Roedd ymatebion ymgynghori manwl wedi eu crynhoi a'u cynnwys yn Atodiad 1, ac roedd y rhain hefyd yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw newidiadau dilynol i'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Mewn ymateb i awgrym gan Gyngor Tref Llangollen, lluniwyd rhestr wirio anffurfiol Safle Treftadaeth y Byd i ymgeiswyr, ac roedd copi yn Atodiad 2. Cynhwyswyd crynodeb o'r prif newidiadau i'r ddogfen yn yr adroddiad, ynghyd â chopi terfynol o'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn Atodiad 3.

Mynegodd Aelodau ward Llangollen bod Safle Treftadaeth y Byd a'r llain glustogi gysylltiedig yn cyflwyno a chreu cyfyngiadau cynllunio a datblygu nad oeddynt yn weithredol mewn rhannau eraill o'r sir. Hefyd teimlwyd y byddai'n amharu ar ddatblygiad economaidd yr ardal leol a'r gymuned, a allai atal buddsoddi ac yn ei dro leihau'r cyfleoedd cyflogaeth yn Nyffryn Dyfrdwy. Esboniodd y Swyddog Polisi Cynllunio na fyddai'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn

cyflwyno unrhyw ofynion newydd, ceisio atal na gwahardd yr egwyddor o ddatblygu yn yr ardal, ond byddai'n ceisio cynyddu ansawdd y datblygiad a chyfoethogi'r ardal. Mynegodd y Cynghorydd S.A. Davies bryder am y meini prawf aelodaeth ar Gyd-bwyllgor Cynghori'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Heb Ganllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd wedi'u mabwysiadu byddai potensial i ddatblygwyr ac ymgeiswyr gamddeall y gofynion ar gyfer ceisiadau cynllunio yn yr ardal berthnasol. Byddai hyn yn arwain at y Cyngor yn methu o ran ei gyfrifoldeb i ddarparu'r ddogfen sy'n ofynnol gan UNESCO, a'r ymrwymiadau y mae wedi ymrwymo iddynt eisoes yn y Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd.

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio y byddai'r Grŵp Llywio sy'n cynnwys swyddogion sy'n gyfrifol am oruchwylio Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu a chadarnhaodd y byddai cynnwys Aelodau yn y Grŵp yn hanfodol bwysig. Roedd yr Aelodau o blaid hyn a chytunwyd y dylai'r Grŵp Llywio gynnwys Aelod etholedig o bob un o'r Awdurdodau perthnasol.

Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth y Cynghorydd M.Ll. Davies, rhoddwyd cadarnhad yr ymgynghorwyd â Fforymau Mynediad Lleol Sir Ddinbych a Wrecsam fel rhan o'r broses datblygu'r polisi.

Tynnodd y Cynghorydd M.L. Holland sylw at yr angen i wella'r amserlen o ran y broses gynllunio gyda'r nod o wella'r rhagolygon cyflogaeth. Eglurodd y Swyddog Polisi Cynllunio bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r broses gynllunio ar hyn o bryd trwy annog trafodaeth cyn cyflwyno cais, ac adolygu Pennod 7 Polisi Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod manteision economaidd ceisiadau cynllunio'n cael eu hystyried yn llawn.

Yn dilyn rhagor o drafodaeth:-

***PENDERFYNWYD* –**

*(a) bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol Safle Treftadaeth y Byd yn ffurfiol, i'w defnyddio i hysbysu penderfynu ar geisiadau cynllunio, a*
*(b) dylai'r Grŵp Llywio sy'n goruchwylio Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd gynnwys Aelod etholedig o bob un o'r Awdurdodau perthnasol.*

**9 YMATEB Y CYNGOR I ADOLYGIADAU GWASANAETHAU BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles, a oedd yn argymell ymateb terfynol y Cyngor i'r ymgynghoriad cyhoeddus 'Mae Gofal Iechyd yng ngogledd Cymru yn newid', â phapurau'r cyfarfod. Dosbarthwyd copi yn cynnwys diweddariad o'r newidiadau i ymateb y Cyngor yn y cyfarfod.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelodau Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant, y Cynghorydd R.L. Feeley, a diolchodd i amryw o unigolion a chyrff am eu cymorth yn llunio'r ymateb. Esboniodd y Cynghorydd Feeley bod "Mae Gofal Iechyd yng ngogledd Cymru yn newid" ac Adolygiadau Gwasanaeth eraill sy'n cael eu hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngorffennaf 2012, yn cynnwys cynigion ar gyfer newidiadau arwyddocaol i wasanaethau iechyd ar draws gogledd Cymru. Cynhaliwyd proses ymgynghori ffurfiol ar y cynigion rhwng 20 Awst a 28 Hydref a bod cais i'r Cyngor gytuno'n ffurfiol ar yr ymateb arfaethedig yn Atodiad I i'r adroddiad.

Roedd manylion am y saith prif faes a adolygwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn yr adroddiad. Cyflwynwyd adroddiad ar adolygiadau "Mae Gofal Iechyd yng ngogledd Cymru yn newid: adroddiad ar gynigion newid gwasanaeth" wedi'i gyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 19 Gorffennaf 2012.

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth gefndir, crynodeb y cynigion, copi o'r ddogfen ymgynghori ac ymateb drafft i'r cynigion a luniwyd gan Weithgor o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn flaenorol. Roedd yr Aelodau wedi cael cyflwyniad gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd hefyd, a chyfle i ofyn cwestiynau ar faterion allweddol. Yn dilyn trafodaethau yn y Grwpiau Aelodau Ardal, cyfarfodydd Clwstwr Cynghorau Tref a Chymuned, cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol a drefnwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gweithgareddau ymgynghori a drefnwyd gan y Cyngor Iechyd Cymuned roedd yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad wedi'i ddiwygio yn dilyn cyfarfod arall o Weithgor y Pwyllgor Craffu Partneriaethau. Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles grynodeb o'r prif newidiadau, fel a ganlyn, a nodwyd yn yr adroddiad:-

- yr angen am Grŵp Strategol ar gyfer Sir Ddinbych i alluogi trafodaeth am fanylion gweithredu'r cynigion (paragraff 1.4)
- cryfhau'r geiriad o ran yr angen i sicrhau bod gwasanaethau amgen yn eu lle cyn cau'r gwasanaethau sy'n bodoli eisoes (paragraffau 1.5, 1.6.4, 1.8.2, 2.3) a datblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr (paragraff 1.9.2)
- cynnig bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried datblygu Inffyrmari Dinbych ac Ysbyty Rhuthun fel 'cyd-ganolfan ysbyty' a'r swyddogaethau cysylltiedig (paragraff 1.7)
- cefnogaeth benodol i ddarparu Gwasanaeth Mân Anafiadau yn Llangollen (paragraff 1.8.3)

Cadarnhawyd bod gweithio agos ac integredig â gwasanaethau iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd lleol, yn ffurfio rhan allweddol o waith y Cyngor i ymateb i newid demograffig, a bod y Cynllun MAWR wedi nodi'r amcanion ar gyfer cydweithio effeithiol i gefnogi teuluoedd.

Roedd manylion am y costau potensial i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'u cynnwys ym mharagraff 4.7 yr adroddiad i'r Cyngor ar 11 Medi. Esboniwyd, yn y broses o newid, yn enwedig wrth i wasanaethau gael eu trosglwyddo i'r gymuned, gallai'r cynnydd mewn costau gael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol. Cyfeiriwyd yn benodol at ofal cymdeithasol i oedolion a'r goblygiadau posibl o ran darpariaeth cludiant. Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynnal

proses sgrinio Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar eu cynigion, a byddai'n gwneud rhagor o waith cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Bwrdd.

Eglurwyd, oherwydd nad oedd costau'r newidiadau arfaethedig wedi eu cyfrifo'n llawn, nad oedd yr effaith ar wasanaethau'r Cyngor yn glir. Byddai angen ystyried materion fel darparu cludiant, a byddai risg y byddai cost ychwanegol darparu mwy o wasanaethau yn y gymuned yn syrthio'n anochel ar dimau gofal cymdeithasol y Cyngor. Byddai camau gweithredu allweddol i leddfu'r risgiau a nodwyd yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau gweithredu yn nodi'r costau'n fanwl ar gyfer y newidiadau arfaethedig, a fyddai'n cael eu trafod gan Grŵp Strategol dynodedig. Byddai hyn yn galluogi gwneud yr effaith yn glir a thryloyw, a chaniatáu trafodaeth lawn â'r Awdurdod Lleol ynghylch meysydd sy'n rhyngweithio â chyfrifoldebau'r Cyngor, a sut y dylid trefnu ac ariannu patrwm newydd y gwasanaethau.

Mynegodd y Cynghorydd S.A. Davies bryderon am ddilysrwydd y broses ymgynghori, gan gyfeirio'n benodol at yr ansicrwydd ynghylch dyfodol yr uned mân anafiadau yn Llangollen.

Pwysleisiodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill bwysigrwydd sicrhau nad oedd gwasanaethau'n cael eu hatal nes bo gwasanaethau amgen wedi eu darparu ac yn weithredol. Mynegodd bryder am amgylchiadau ariannol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwestiynodd ei allu i gyflawni'r cynigion yn unol â'r amserlen arfaethedig. Tynnodd y Cynghorydd Thompson–Hill sylw at ganlyniadau potensial y cynigion yn Sir Ddinbych, gan gyfeirio'n benodol at yr effaith posibl ar grantiau cefnogi refeniw'r Cyngor a ffynonellau ariannu allanol eraill. Cyfeiriodd at effaith andwyol trosglwyddo'r gost i Sir Ddinbych ar angen i'r Cyngor fabwysiadu safiad cadarn ar y mater hwn.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi rhoi gwarant na fyddai gwasanaeth yn cael ei gau cyn sefydlu un newydd, a phetai hyn yn digwydd byddai am gyfnod o ddyddiau yn hytrach nag wythnosau. Cafwyd sicrwydd hefyd na fyddai costau'n cael eu trosglwyddo ac na fyddai disgwyl i'r Awdurdod Lleol ymdrin ag unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r newidiadau. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr y byddai'n bwysig i Gyngor Sir Ddinbych fabwysiadu safiad cadarn wrth sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cyflawni ei gynigion yn unol â'u datganiadau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles bod cydgysylltu rhwng Adran Eiddo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Adran Gynllunio'r Cyngor o ran y cyfnodau ailddatblygu yn gysylltiedig ag adeiladau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ardal y Rhyl a Phrestatyn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol cafwyd yr atebion a ganlyn gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles i'r cwestiynau a'r materion a nodwyd gan Aelodau:-

- mynegwyd y farn y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn fodlon ateb cwestiynau ar sail tystiolaeth.

- esboniwyd bod y Gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref yn wasanaeth gofal iechyd ychwanegol a ddarperir yng nghartref defnyddiwr y gwasanaeth, a'i fod yn wahanol i'r Gwasanaeth Gofal yn y Cartref.
- mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd J.A. Davies, cadarnhawyd y gallai Cyngor Sir Ddinbych bwysleisio pwysigrwydd darparu ysbyty newydd yn y Rhyl pan yw'n cyflwyno'r achos busnes ffurfiol i Lywodraeth Cymru. Pwysleisiodd y Cynghorydd R.M. Murray bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw strwythur newydd a gyflwynir yn llwyddiannus cyn cael gwared ar y gwasanaethau presennol.

Esboniodd y Cynghorydd Feeley bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi pwysleisio nad oedd y newidiadau arfaethedig wedi eu llywio na'u llywodraethu gan ystyriaethau ariannol yn unig, ond gan y newid cynyddol mewn demograffeg, adeiladau'n anaddas i'w pwrpas a'r problemau yn ceisio denu'r staff clinigol uchaf ar gyfer meysydd meddygaeth penodol. Rhoddwyd cadarnhad bod mwyafrif y meddygon lleol yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig yn y gwasanaethau.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles gyfleu eu gwerthfawrogiad i'r staff am eu gwaith caled.

***PENDERFYNWYD –*** *bod y Cyngor yn cytuno ar yr ymateb i'r ymgynghoriad, wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad, i'w gyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.*

## 10 BLAEN RAGLEN WAITH Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd yr Uwch Gyfreithiwr Flaen Raglen Waith y Cyngor, a ddosbarthwyd yn flaenorol, a chytunodd yr Aelodau i gynnwys yr eitemau newydd isod yn y Rhaglen Waith:-

6 Tachwedd 2012:-

- Diwygio Budd-daliadau Lles
- Rôl Hyrwyddwyr

11 Rhagfyr 2012:-

- Gweithdy ar y Gyllideb

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, gymeradwyo a nodi blaen raglen waith y Cyngor.*

Gorffennodd y cyfarfod am 1.45 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Tachwedd 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodi Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Safonau.** |

**1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?**

Penodi, ar gyfer y tymor swyddogol hwn, ddau aelod lleyg, annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r rheoliadau llywodraethol ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod gan gynnwys unigolion sy'n annibynnol o'r Cyngor, Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned. Oherwydd treigl amser, a'r terfynau amser cyfreithiol ynghylch y cyfnod y gall Aelodau Annibynnol (Lleyg) wasanaethu, mae'n bryd erbyn hyn cael dau arall yn lle'r ddau Aelod Lleyg sy'n ymddeol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhelliad y Panel Penodiadau Arbennig yw mai'r ddau unigolyn sy'n cael eu hystyried yn fwyaf addas i eistedd fel Aelodau Lleyg ar y Pwyllgor Safonau yw: -

1) Y Barnwr Ian Trigger (Barnwr Cylchdaith)
2) Steven Wayne Roberts (Gweinidog yr Efengyl)

**4. Manylion yr Adroddiad**

Bydd y Cyngor Llawn yn cofio, yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2012, y dirprwywyd y broses ddewis i Banel Penodiadau Arbennig, mae'r panel hwn yn cynnwys tri chynghorydd sir, un cynghorydd cyngor cymuned ac un aelod lleyg, ac, ar ôl cyfweld ymgeiswyr, mae yn awr yn cyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor Llawn.

**5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Pwyllgor Safonau hollol weithredol a chynrychiadol sy'n helpu i gynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau o gymorth i fod yn sylfaen i'r Cyngor wrth ymarfer ei ddyletswydd democrataidd.

**6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae’r Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol yn gosod cyfradd ddyddiol ar gyfer aelodau annibynnol. Mae’n rhaid, yn ôl y gyfraith, gynnig y gyfradd hon i aelodau annibynnol.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae’n rhaid hysbysebu pob lle gwag am aelod annibynnol mewn o leiaf ddau bapur newydd yn cylchredeg yn yr ardal. Gwnaed hyn, a hefyd cafodd gwefannau cyflogaeth eu cynnwys er mwyn ymestyn allan i gynulleidfa mor eang â phosibl.

O ran yr aelod cymunedol a oedd yn eistedd ar y Panel Penodiadau Arbennig, ymgynghorwyd â phob cyngor tref a chymuned er mwyn ystyried penodi aelod cymunedol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Does yna ddim costau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â’r penodiadau.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Ni nodwyd fod unrhyw risgiau ynghlwm wrth y penodiadau.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn i bob awdurdod lleol sefydlu Pwyllgor Safonau.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Y Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Tachwedd 6ed 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Swyddogaeth Pencampwyr** |

---

**1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?**

Gofynnir i'r Cyngor Llawn ystyried penodi Aelodau yn ystod y tymor yma yn y swydd, i weithredu fel Pencampwyr yn y meysydd canlynol:

- Pencampwr Pobl Hŷn
- Pencampwr Digartrefedd
- Pencampwr Gofalwyr
- Pencampwr Anabledd Dysgu

**2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?**

Mae'r adroddiad i ystyried y disgrifiadau swydd drafft a phenodiad y Pencampwyr a nodwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor ac i drafod y broses o nodi swyddogaethau Pencampwyr eraill a allai fod yn addas i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod y Cyngor yn ystyried gwneud y penodiadau canlynol: -

(1) Pencampwr Pobl Hŷn
(2) Pencampwr Digartrefedd
(3) Pencampwr Gofalwyr
(4) Pencampwr Anabledd Dysgu

3.2 Bod y Cyngor yn mabwysiadu'r disgrifiadau swydd sydd wedi eu mynegi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn o ran y Pencampwyr sy'n cael eu penodi.

3.3 Gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried a oes yna rinwedd mewn penodi Pencampwyr ar gyfer diddordebau eraill.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae swyddogaeth Pencampwyr wedi esblygu yn yr awdurdod hwn o benodiad 'Pencampwr Pobl Hŷn' a ddeilliodd o'r cyfarwyddyd yn y Strategaeth Pobl Hŷn gan y Cynulliad Cymreig y dylai fod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru Bencampwr felly.

Ers hynny mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cynyddu'r ystod o Bencampwyr mewn meysydd eraill, weithiau o ganlyniad i gyfarwyddyd Aelodau, neu fentrau allanol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn awr, yn ei adolygiad diweddar o'i Gyfansoddiad, ym mharagraff 2.6 Erthygl 2, yn cydnabod yn ffurfiol bwysigrwydd swyddogaeth Pencampwr mewn meysydd penodedig, felly'n plannu'r swyddogaeth o fewn y Cyfansoddiad.

Nid yw'r dull o benodi unrhyw Bencampwr wedi ei ddeddfu, a phenderfyniad pob awdurdod lleol unigol fydd pa ddull yw'r gorau i gyflawni hyn yn lleol. Wrth benodi'r Pencampwr Pobl Hŷn mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datgan fod 'llawer yn ei hystyried yn bwysig fod y Pencampwr yn seiliedig ar lefel y cabinet, lle bydd awdurdodau lleol yn ystyried hynny'n briodol, i sicrhau fod materion pobl hŷn yn cael eu nodi ar y lefel uchaf. Fodd bynnag, nid felly y bydd hi bob tro ac mae sawl awdurdod lleol wedi mabwysiadu dulliau gwahanol pan fydd hynny fwy addas ar gyfer angen lleol.'

Yn hanesyddol, dull Cyngor Sir Ddinbych oedd sicrhau penodi'r aelod mwyaf priodol i swyddogaeth y pencampwr unigol. Mewn trafodaethau blaenorol ar Bencampwyr, bu aelodau'n awyddus i weld disgrifiad swydd eglur ar gyfer Pencampwr a hwnnw'n cael ei gytuno a'i fabwysiadu a'i fod yn mynegi sut yn union y gellir ymgymryd â'r swyddogaeth yn yr awdurdod arbennig yma. Mae disgrifiadau swydd drafft ar gyfer y swyddogaethau a nodir yn y Cyfansoddiad wedi eu mynegi yn yr Atodiadau i'r adroddiad hwn ac maen nhw'n ceisio eglurder a chysondeb ynglŷn â swyddogaeth Pencampwr yn Sir Ddinbych.

Yn ystod dadl y Cyngor Llawn ar fater Pencampwyr yn ei gyfarfod yn Ebrill 2012 i fabwysiadu'r Cyfansoddiad newydd, roedd rhai Aelodau'n cefnogi'r awgrym o ymestyn ystod y swyddogaethau hyn i Bencampwr Pobl Ifanc, o ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol a'r sialensiau sy'n wynebu ieuenctid heddiw. Yn ogystal, wrth ystyried Cyfamod y Lluoedd Arfog, cafwyd trafodaeth ynglŷn â dymunoldeb penodi Pencampwr Lluoedd Arfog. Awgrymwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn edrych yn fanwl ar ddymunoldeb penodi Pencampwyr o ran diddordebau eraill a rhoi argymhellion i'r Cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yma'n cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r swyddogaethau'n cyfrannu tuag at Gynllun Mawr y Cyngor a Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Sir Ddinbych 2025.

**6. Beth fydd o'n ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes yna unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad yma.

**7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

Fe ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grwpiau ac roedden nhw o blaid penodi'r pedwar Pencampwr a nodwyd yn yr argymhellion sydd yn yr adroddiad yma ac i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol edrych yn fanwl ar briodoldeb penodi Pencampwyr ar gyfer diddordebau eraill.

Fe ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac mae wedi mynegi pryder fod yna bosibilrwydd o ddryswch a/neu ddyblygu rhwng swyddogaethau Pencampwyr ac Aelodau Arweiniol pan fydd y mater sydd i'w bleidio'n dod o fewn cylch gwaith Aelod Arweiniol unigol.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes yna unrhyw gostau ychwanegol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r penodiadau.

**9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes yna unrhyw risgiau a nodwyd ynglŷn â bwrw ymlaen â'r penodiadau.

**10. Grym i wneud y penderfyniad**

Erthygl 2.6 Cyfansoddiad y Cyngor

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Denbighshire County Council**

**Role Description – Homelessness Champion**

**Accountability**

To the Full Council

**Role, purpose and activities**

1. To act as a strong strategic leader on homelessness and raising and promoting homelessness issues.
2. To gain an understanding of homelessness, its' causes and the Council's statutory obligations and where required to explain the duties.
3. To advocate the importance of prevention and responding proactively to homelessness; including advocating realistic funding regimes to provide efficient and effective services for vulnerable families and individuals at risk of homelessness.
4. To gain an understanding of the work of the teams in Housing services including the Homelessness unit and the Supporting People team, promoting these internally and externally. To reflect back to the teams, via appropriate channels, how the service is perceived in the community.
5. To consider and highlight the role of public, private and third sectors in bringing forward solutions.
6. To attend training and regular briefings from the Homelessness team.
7. To visit projects run by the voluntary sector.
8. To keep abreast of the evolving impact of national and legislative changes.
9. As a spokesperson to keep issues at the forefront of debate; raising awareness amongst fellow elected members of homelessness issues and the implications of these for the Council.
10. Where required, in conjunction with the Lead Member and the Councils' Communications team, to engage with the media.

DRAFT

Person Specification

**Within the Council**
Understanding of the area of interest being championed in terms of council strategies and policy, good practice, improvement and national agendas and the needs of the client group
Ability to engage with a range of members and officers around the area of interest and listening to requirements

Ability to advocate on behalf of the area of interest within the council

**In the Community**
Understanding of the needs of the community in relation to the interest
Ability to engage with citizens and community groups in matters related to the interest.
Ability to lead and support local initiatives related to the interest.
Ability to represent the position of the council to the community in relation to the interest.

September 2012

DRAFT

**Denbighshire County Council**

**Role Description – Older People's Champion**

**Accountability**

To the Full Council

**Role, purpose and activities**

1. To act as a strong strategic leader on raising and promoting older people's issues.
2. To argue, support and defend the concerns, issues and needs of older people in the Councils' area.
3. To establish good working relationships with officers and others driving forward the strategies, polices and plans.
4. To gain an understanding of older people's issues and the Council's statutory obligations to them and where required to explain the duties.
5. To commit to attending nationally facilitated events (such as provided by the WLGA) and to consider making your own regional, cross border and national links as are necessary such as health and equalities champions in local health structures.
6. In addition to health and social care, to contribute to the shift in focus towards the economic contribution of older people, the opportunities to encourage an active life and the benefits of maintaining independence; promoting a positive image for older people.
7. To ensure that older people are and remain a priority in the Councils' work. As a spokesperson to keep issues at the forefront of debate; raising awareness amongst fellow elected members on older people's issues and the implications of these for the Council.
8. To promote the wider local democracy in the involvement, participation and engagement of older people in the planning and reviewing of all aspects of a local authority's work, including service delivery and policy development.
9. To consider and highlight the role of public, private and third sectors in bringing forward solutions.
10. To attend training and regular briefings.
11. To visit projects run by the voluntary and third sector and to learn from the experience and knowledge of older people's organizations.
12. To keep abreast of the evolving impact of national and legislative changes.
13. Where required, in conjunction with the Lead Member (if relevant) and the Councils' Communications team, to engage with the media.
14. To consider the role of Carer's Champion and its impact on this role and whether to work together where appropriate.

DRAFT

## Person Specification

**Within the Council**
Understanding of the area of interest being championed in terms of council strategies and policy, good practice, improvement and national agendas and the needs of the client group
Ability to engage with a range of members and officers around the area of interest and listening to requirements
Ability to advocate on behalf of the area of interest within the council

**In the Community**
Understanding of the needs of the community in relation to the interest
Ability to engage with citizens and community groups in matters related to the interest.
Ability to lead and support local initiatives related to the interest.
Ability to represent the position of the council to the community in relation to the interest.

September 2012

DRAFT

**Denbighshire County Council**

**Role Description - Carers Champion**

**Accountability**

To the Full Council

**Role, purpose and activities**

1. To act as a strong strategic leader on raising and promoting issues affecting Carers.
2. To argue, support and defend the concerns, issues and needs of Carers in the Councils' area.
3. To gain an understanding of the needs of Carers across all service user groups, and to share this with Member colleagues. This may necessitate regular contact with Carers.
4. To raise awareness (amongst fellow Elected Members) of the issues facing Carers, and the implications of these for Social Services.
5. Wherever possible, in conjunction with the relevant Lead Member, highlight the needs of Carers, and to act as a Champion within the Council with a view to ensuring that the Council responds to these needs appropriately.
6. To familiarise him/herself with the range of services and organisations available to support Carers locally.
7. To ensure the needs of Carers are and remain a priority in the Councils' work. As a spokesperson to keep issues at the forefront of debate; raising awareness amongst fellow elected members on such issues and the implications of these for the Council.
8. To promote the wider local democracy in the involvement, participation and engagement of Carers in the planning and reviewing of all aspects of a local authority's work, including service delivery and policy development.
9. To keep up to date with developments in local, regional and national strategies, and any legislative changes in regard to Carers, as they occur.
10. To keep up to date with any changes to policy or procedures relating to Carers and to attend relevant training.
11. To become a standing member of the multi-agency Denbighshire Carers Strategy Group.
12. To attend local key events for Carers, eg Carers Rights Day Carers week events and conferences.
13. To attend regional and national events in relation to Carers, where possible, eg conferences, meetings and forums.
14. Where required, in conjunction with the Lead Member (if relevant) and the Councils' Communications team, to engage with the media.

15. To consider the roles of Older People's Champion and Learning Disability Champion and its impact on this role and whether to work together where appropriate.

## Person Specification

**Within the Council**
Understanding of the area of interest being championed in terms of council strategies and policy, good practice, improvement and national agendas and the needs of the client group
Ability to engage with a range of members and officers around the area of interest and listening to requirements
Ability to advocate on behalf of the area of interest within the council

**In the Community**
Understanding of the needs of the community in relation to the interest
Ability to engage with citizens and community groups in matters related to the interest.
Ability to lead and support local initiatives related to the interest.
Ability to represent the position of the council to the community in relation to the interest.

October 2012

**Denbighshire County Council**

**Role Description – Learning Disabilities Champion**

**Accountabilities**

To Full Council

**Role Purpose and Activities**

1. To act as a strong strategic leader on raising and promoting issues affecting persons with a learning disability.
2. To argue, support and defend the concerns, issues and needs of the Learning Disabled in the Councils' area.
3. To establish good working relationships with officers and others driving forward the strategies, polices and plans.
4. To gain an understanding of the issues and the Council's statutory obligations to them and where required to explain the duties.
5. To commit to attending nationally facilitated events (such as provided by the WLGA) and to consider making your own regional, cross border and national links as are necessary such as health and equalities champions in local health structures.
6. In addition to health and social care, to contribute to the shift in focus towards the economic contribution of the Learning Disabled community, the opportunities for an active and social life, and the benefits of maintaining independence with or without support.
7. To ensure that persons with a learning disability are and remain a priority in the Councils' work. As a spokesperson to keep issues at the forefront of debate; raising awareness amongst fellow elected members on such issues and the implications of these for the Council.
8. To promote the wider local democracy in the involvement, participation and engagement of persons with a learning disability and carers in the planning and reviewing of all aspects of a local authority's work, including service delivery and policy development.
9. To consider and highlight the role of public, private and third sectors in bringing forward solutions.
10. To attend training and regular briefings.
11. To visit projects run by the voluntary and third sector and to learn from the experience and knowledge of learning disabled organizations.
12. To keep abreast of the evolving impact of national and legislative changes.
13. Where required, in conjunction with the Lead Member (if relevant) and the Councils' Communications team, to engage with the media.
14. To consider the role of Carer's Champion and its impact on this role and whether to work together where appropriate.

DRAFT

Person Specification

**Within the Council**
Understanding of the area of interest being championed in terms of council strategies and policy, good practice, improvement and national agendas and the needs of the client group
Ability to engage with a range of members and officers around the area of interest and listening to requirements
Ability to advocate on behalf of the area of interest within the council

**In the Community**
Understanding of the needs of the community in relation to the interest
Ability to engage with citizens and community groups in matters related to the interest.
Ability to lead and support local initiatives related to the interest.
Ability to represent the position of the council to the community in relation to the interest.

DRAFT

October 2012

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Tachwedd 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Hugh Irving / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ken A Jones** |
| **Teitl:** | **Diweddariad Diwygio Lles** |

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Effaith diwygio Lles ar Sir Ddinbych ar hyn o bryd a'r effaith debygol yn y dyfodol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I ddarparu diweddariad ar wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyflwyno i Grwpiau Aelodau Ardal ynghylch effaith barhaus y newidiadau i Fudd-daliadau Tai a Threth y Cyngor fel rhan o roi'r Credyd Cynhwysol ar waith.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'n gwneud sylw o'r adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad.

### 4.1 Credyd Cynhwysol

Bwriad cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (CC) yw symleiddio'r system fudd-daliadau trwy uno 6 prif fudd-dal gan gynnwys Budd-dal Tai yn un budd-dal oedran gweithio, gyda'r bwriad o wneud i "waith dalu'r ffordd" a lleihau costau talu a gweinyddol cyffredinol y system fudd-daliadau.

Mae'r Mesur Diwygio Lles yn amlinellu'r amserlen ar gyfer rhoi'r CC ar waith gyda pheilot yn dechrau yn Ebrill 2013 a holl geisiadau newydd yn dechrau o Hydref 2013, neu Ebrill 2014 fan bellaf. Yn dilyn hynny, bydd y ceisiadau presennol am fudd-daliadau a Chredydau Treth yn cael eu cau yn raddol ac yn cael eu trosglwyddo i'r system newydd; bwriedir i'r gwaith trosglwyddo gael ei gwblhau erbyn Hydref 2017.

Bwriedir i'r Credyd Cynhwysol fod yn un taliad sengl i un hawliwr ar ran yr aelwyd a bydd yn cael ei ôl-dalu'n fisol gyda'r taliad tai yn rhan o'r taliadau CC cyffredinol. Bydd hyn yn golygu y bydd y tenant yn derbyn yr elfen budd-dal tai, ac ni fydd yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord; bydd hyn yn cynnwys Tenantiaid Tai Cymdeithasol.

Cyn i'r Credyd Cynhwysol ddod i rym, gwneir diwygiadau sylweddol gyda golwg ar dorri costau a gwneud paratoadau ar gyfer uno'r holl daliadau o fewn y Credyd Cynhwysol. Mae nifer o'r diwygiadau hyn yn effeithio ar Fudd-dal Tai, gyda

newidiadau mawr a gostyngiadau eisoes wedi digwydd. Fe'u dangosir yn Atodiad A. Mae Atodiad B yn dangos newidiadau pellach a fydd yn digwydd yn ystod 2013.

Mae effaith y gostyngiad i'r Budd-dal Tai a delir yn ddibynnol ar ymateb Landlordiaid i ostyngiad yn eu hincwm o renti, a hyd yma, ymddengys bod Landlordiaid, ar y cyfan, wedi derbyn y gostgyniadau i hawlwyr newydd.

Yn ychwanegol at y newidiadau hyn, cyhoeddodd y Prif Weinidog yn ddiweddar y bydd toriadau o £10 biliwn i fudd-daliadau yn y blynyddoedd sydd i ddod.

### 4.2 Cymorth Treth y Cyngor

O 1 Ebrill flwyddyn nesaf, bydd Budd-dal Treth y Cyngor yn cael ei olynu gan system newydd a elwir yn Gymorth Treth y Cyngor. Bydd cyfrifoldeb am dalu hwn yn symud o'r Adran Waith a Phensiynau (DWP) i Lywodraeth Leol.

Ar yr un pryd ag y bydd cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo, bydd toriadau yn y cronfeydd sydd ar gael i'r cynllun. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd gostyngiad o 10% yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai ceisiadau yn syrthio o'r ffigurau 2010/11 a ddefnyddiwyd fel sail.

Mae'r tabl isod yn dangos y gostyngiad yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol o'r ariannu a'r llwyth achosion i Sir Ddinbych.

| | 11/12 Gwirioneddol £m | 12/13 Rhagolwg £m | 13/14 Rhagolwg £m |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau | 8.98 | 9.3 | 9.6 |
| Cyllideb Arfaethedig | 7.94 | 7.94 | 7.94 |
| Diffyg | 1.04 | 1.36 | 1.66 |
| % Diffyg | 11.5% | 14.6% | 17.3% |

Mae Atodiad C yn dangos sut mae llwyth achosion Budd-dal Treth y Cyngor wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn Lloegr, mae'r Adran Gymunedau a Llywodraeth leol wedi cyhoeddi y bydd £100m ychwanegol ar gael i leihau effaith y newid. Dylai cyfran Cymru o'r swm fod oddeutu £6m. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi os gaiff yr arian ei drosglwyddo i'r Cynghorau. Pe byddai hynny'n digwydd, byddem yn derbyn oddeutu £220k.

Canlyniad y gostyngiad yn y budd-dal a delir fydd yr angen i gasglu'r gwahaniaeth o drethdalwyr sydd ar hyd o bryd yn derbyn budd-dal sydd â phrawf modd, er na fydd codiad yn eu hincwm i gyfateb i'r swm a gollir o'r budd-dal. Felly mae'n debygol y bydd gostyngiad ym mherfformiad casglu'r cyngor, gyda llai o lif arian a chynnydd mewn dyledion drwg i'r Awdurdod.

Ar hyn o bryd, Sir Ddinbych yw'r sir orau o ran cyfradd casglu Treth y Cyngor yng Nghymru. Y gyfradd llynedd oedd 98%. Mae hyn yn debygol o ostwng o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Credir y bydd y gyfradd gasglu yn y dechrau yn syrthio i 97% sy'n cyfateb i golled o tua £400k mewn incwm. Bydd gostyngiad yn y gyfradd gasglu

hefyd yn effeithio ar yr heddlu a chynghorau gwlad a thref gan eu bod hwythau hefyd yn codi tâl ar y sawl sy'n talu treth y cyngor.

Yn ogystal â cholli incwm, bydd costau gweinyddu ychwanegol gan y bydd yn rhaid gweithredu i sicrhau bod yr arian yn cael ei dderbyn. Mae'r Cyngor eisoes wedi gorfod talu £55k i newid ei system TG. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud na fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer gweithredu'r cynllun nag ymdrin â'r pwysau parhaus.

Mae'n dal i fod yn anodd rhagfynegi'r effaith ariannol gan nad yw Llywodraeth Cymru hyd yma wedi nodi cynigion eglur ar natur y cynllun newydd. Mae ymgynghoriadau drafft wedi'u cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad, ond nid oeddynt yn cynnwys y lefel y bydd yn rhaid i hawlwyr dalu.

Nid yw'r ddeddfwriaeth i weithredu'r newidiadau hyn yn bodoli hyd yma. Ar yn o bryd, mae'n cael ei drafod yn Nhŷ'r Arglwyddi, gyda'r Senedd yn debygol o'i gymeradwyo yn Rhagfyr; bydd rheoliadau Llywodraeth Cymru yn dilyn yn Ionawr. Dylai datganiad hydref y Canghellor yn Rhagfyr ddweud wrthym beth fydd y swm terfynol a neilltuir i'r cynllun hwn.

### 4.3 Newidiadau Sylweddol eraill i Fudd-daliadau

Bydd cyflwyno meini prawf a rheolau'n seiliedig ar faint yn y sector rhentu cymdeithasol yn golygu y bydd eiddo landlordiaid cymdeithasol yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n rhannol wal gyda gostgyniadau i'r Budd-dal Tai a delir. Yn y gorffennol, nid oedd angen cofnodi nifer yr ystafelloedd gwely o fewn eiddo, ond mae angen gwneud hynny nawr. Bydd yn siŵr o arwain at broblemau i'r cyngor fel landlord gan y bydd rhenti rhai tenantiaid yn codi oherwydd y newid hwn.

Yn ogystal â chostau Tai, mae yna newidiadau sylweddol i'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA); bydd yn rhaid i'r sawl sy'n derbyn DLA ar hyn o bryd wneud cais am, a chael eu hasesu ar gyfer Taliadau Annibyniaeth Personol. Bydd peilot ar gyfer hyn yn dechrau o Ebrill 2013 a bydd y newidiadau yn cael eu cyflwyno'n raddol o Hydref ymlaen. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth fydd y canlyniadau; yn wir, bydd yn dibynnu ar ganlyniadau'r peilot.

### 4.4 Grŵp Diwygio Lles

Mae'r sir wedi cydnabod risg Diwygio Lles, ac mae Grŵp Diwygio Lles Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn cyfarfod ers Ebrill 2012. Grŵp traws wasanaeth yw hwn i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu a bod pwysau yn cael eu cydnabod er mwyn cefnogi ein cwsmeriaid.

Mae cais ar y cyd gyda Sir y Fflint am arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Swyddog Cydlynu Budd-dal Tai / Dewisiadau Tai wedi bod yn llwyddiannus.

Mae'r Sir yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda Landlordiaid (Preifat a Chymdeithasol).

Bydd yr holl gwsmeriaid a fydd yn cael eu heffeithio yn derbyn llythyr yn eu hysbysu o newidiadau, gyda swyddogion ymweld budd-dal ar gael i ymweld yn y cartref. Mae gwaith ar y gweill i gynghori trigolion o'r budd-daliadau y maen nhw'n gymwys i'w hawlio.

Ar hyn o bryd, mae'n anodd rhoi gwybodaeth i hawlwyr o'r effeithiau gwirioneddol arnynt oherwydd ansicrwydd mawr, newidiadau niferus a natur rhyngddibynnol a chymhleth y system fudd-daliadau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Ddim yn berthnasol

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'n amlwg y bydd incwm yn cael ei golli oherwydd y newidiadau i'r system Budd-dal Treth y Cyngor. Tra bydd y Cyngor yn ceisio casglu'r holl dreth sy'n ddyledus, mae'n annhebygol y bydd yn gallu casglu ar gyfradd uchel. Mae rhagdybiaethau ynghylch y golled hon mewn incwm wedi'u cynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor.

Mae'n anodd asesu'r gost ariannol ar ddarparu gwasanaethau hyd nes bod newidiadau yn eu lle, fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod mannau sydd dan bwysau. Fel lleiafswm – mwy o ofynion o ran ymholiadau i'r Adran Fudd-dal, a chanolfannau cyngor Dyled a Lles.

Bydd cynnydd yn y gweithredu adferol a wneir, a bydd angen felly adolygu adnoddau staff yr adran Refeniw; bydd hefyd angen adolygu adnoddau staff yr adran Fudd-daliadau.

Bydd effaith ar yr Adran Dai o safbwynt casglu rhent a'r posibilrwydd o ddigartrefedd.

Bydd effaith hefyd ar Wasanaethau Cymdeithasol oherwydd newidiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl sy'n golygu y bydd yn rhaid i staff dywys holl gleientiaid perthnasol drwy'r broses newydd i weld os ydyn nhw'n gymwys i dderbyn y Taliadau Annibyniaeth Personol newydd.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad gan fod hwn yn ofyniad statudol er mwyn cydymffurfio. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar lefel cenedlaethol ar ei newidiadau arfaethedig i'r system Budd-dal Treth y Cyngor. Sefydlwyd gweithgor mewnol i sicrhau bod adrannau yn ymwybodol o'r cynigion wrth iddynt ddod ymlaen a bod gweithredu addas yn digwydd wedyn.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae'n amlwg bod risgiau ariannol sylweddol ynglŷn â'r newidiadau i'r system fudd-daliadau sy'n edrych yn waeth oherwydd yr ansicrwydd cyfredol ynghylch effaith newidiadau, a'r amserlen fer ar gyfer gweithredu.

## 9. Beth yw'r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Mae yna nifer o risgiau a chaiff y risgiau hyn eu rheoli trwy'r Grŵp Diwygio Lles a chynlluniau busnes / cofrestri risg gwasanaethau unigol.

**Atodiad A**

<table>
<tr><th>Newid diwygio 1/4/2011</th><th>Effaith ar Gyngor Sir Ddinbych</th></tr>
<tr><td>Darpariaeth ar gyfer ystafell wely ychwanegol yn y rheolau meini prawf maint lle bo person anabl angen gofalwr sy’n byw mewn.</td><td>Effaith gadarnhaol i ganiatáu’r ystafell ychwanegol.</td></tr>
<tr><td>Tynnu’r or-elfen £15 yn y Lwfans Tai Lleol</td><td>666 o hawlwyr (28%) wedi derbyn y gordal, sy’n golygu bod eu Lwfans Tai Lleol yn fwy na’u rhent.<br>Roedd yr or-elfen yn amrywio o £1 - £15 yr wythnos.</td></tr>
<tr><td>Rhoi cap ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol</td><td>Dim effaith ar Sir Ddinbych gan fod y cyfraddau wedi’u seilio ar renti Llundain.</td></tr>
<tr><td>Cyfyngu ar faint mwyaf annedd lle mae Budd-dal yn daladwy i 4 ystafell wely</td><td>31 o dai wedi’u heffeithio, pump o’r 31 yn unig oedd â diffyg rhwng y gyfradd 4 ystafell wely a’r swm oedd yn rhaid iddynt dalu fel rhent, ac mae gan dri ohonynt ddiffyg yn barod.</td></tr>
<tr><td>Cyfyngu ar raddfeydd taliadau’r Lwfans Tai Lleol</td><td>
<table>
<tr><th>Llety</th><th>Mawrth 2011</th><th>Ebrill 2011</th><th>Chwefror 2012</th></tr>
<tr><td>Cyfradd rannu</td><td>£65.00</td><td>£55.00</td><td>£55.00</td></tr>
<tr><td>1 Ystafell Wely</td><td>£80.00</td><td>£75.00</td><td>£80.00</td></tr>
<tr><td>2 Ystafell Wely</td><td>£103.85</td><td>£94.62</td><td>£100.00</td></tr>
<tr><td>3 Ystafell Wely</td><td>£126.92</td><td>£114.23</td><td>£115.38</td></tr>
<tr><td>4 Ystafell Wely</td><td>£160.38</td><td>£150.00</td><td>£150.00</td></tr>
</table>
</td></tr>
<tr><td>Cynnydd yn y symiau a dynnir o’r Lwfans Tai Lleol i’r sawl sydd ddim yn ddibynnol</td><td>1,509 o gwsmeriaid yn hawliau budd-daliadau gyda rhywun sydd ddim yn ddibynnol ar yr aelwyd.<br>Symiau a dynnir o’r tâl Budd-dal Tai yn cynyddu 27% gyda gostyngiadau o £2 i £12.85 yr wythnos yn ôl incwm y sawl sydd ddim yn ddibynnol, bydd y ffigurau hyn yn cynyddu eto ar gyfer 2012/13 ar lefelau uwch tebyg.</td></tr>
<tr><td>Cynyddu Taliadau Tai ar Ddisgresiwn (DHP) i alluogi Awdurdodau Lleol i ddarparu help ychwanegol mewn achosion o galedi ynghylch tai.</td><td>£54k 2011/12.<br>£102k ar gyfer 2012/13</td></tr>
<tr><td>Ion<br>2012</td><td>Ymestyn y gyfradd rhannu ystafell i’r bobl sengl hynny dan 35. Gostyngiad o £25 yr wythnos yn y budd-dal tai sy’n daladwy.<br>Effeithio ar 188 tenantiaeth.</td></tr>
</table>

**Atodiad B**

| | Newidiadau i'r cyflwyno o 2013 | Effaith ar Gyngor Sir Ddinbych |
|---|---|---|
| | | |
| Ebrill 2013 | Cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu diweddaru gan y Cynnydd Prisiau Defnyddwyr yn hytrach nag adolygiad blynyddol o'r Lwfans Tai Lleol. | Cyfraddau yn cael eu pennu yn unol â'r mynegai prisiau defnyddwyr (sydd ddim yn cynnwys costau tai), yn hytrach na rhenti marchnad cyfartalog |
| Ebrill 2013 | Cyflwyno rheolau meini prawf maint wrth hawlio yn y sector rhentu cymdeithasol | Cyfyngu rhent i nifer yr ystafelloedd sydd eu 'hangen' mewn tai cymdeithasol.<br>Ddim yn defnyddio 1 ystafell – gostynigad 14%<br>Ddim yn defnyddio 2 ystafell – gostynigad 25% |
| Ebrill 2013 | Rhoi cap ar gyfanswm taliadau budd-daliadau sef swm sydd gyfwerth â lefelau enillion cyfartalog. | Budd-dal Tai fydd y mecanwaith ar gyfer rhoi cap ar gyfanswm budd-daliadau a delir i aelwyd; y ffigur ar hyn o bryd yw £26k y flwyddyn. Bydd staff Budd-dal Tai yn asesu'r holl fudd-daliadau a dderbynnir ac yn gostwng y Budd-dal Tai os yw dros y lefel. |
| Ebrill 2013 | Lleoleiddio Budd-dal Treth y Cyngor (CTB) | |
| Ebrill 2013 | Gwasanaeth Ymchwilio Twyll Sengl (SFIS) | Opsiynau ar gyfer gweithredu yn parhau yn aneglur |
| Medi 2013 | Taliadau Annibyniaeth Personol yn lle Lwfans Byw i'r Anabl | Goblygiadau yn parhau i fod yn aneglur |
| Hyd 2013 | Cyflwyno Credyd Cynhwysol | Dechrau o bosibl Ebrill 2014, opsiynau ar gyfer gweithredu yn parhau yn aneglur |

**Atodiad C**


11/12 Llwyth Achosion

| Math o fudd-dal | Sector | Cwsmeriaid | Gwerth |
|---|---|---|---|
| Budd-dal Tai | Rhentu preifat Lwfans Tai Lleol (LHA) | 3,086 | £11.5 Miliwn |
| Budd-dal Tai | Rhentu preifat Dim LHA | 805 | £4.017 Miliwn |
| Budd-dal Tai | Cymdeithas Dai | 1,604 | £6.134 Miliwn |
| Budd-dal Tai | Rhenti Cyngor Sir Ddinbych | 2,325 | £6.693 Miliwn |
| Budd-dal Treth y Cyngor | Budd-dal Treth y Cyngor | 10,820 | £8.98 Miliwn |
| | **Cyfanswm** | **18,640** | **£37.2** Miliwn |

Manylion am y sawl sy'n hawlio

| Math o hawliwr | % |
|---|---|
| Pensiynwyr | 48% |
| Oed Gweithio a Di-waith | 35% |
| Oed Gweithio a Cyflogedig | 17% |

**Niferoedd yn hawlio Budd-dal Treth y Cyngor**



**Atodiad D**

**Amcangyfrif o Gyfanswm y Gostyngiadau mewn Budd-dal yn seiliedig ar y sawl sy'n hawlio cyn Ebrill 2011 yn Sir Ddinbych**

| **Newid mewn budd-dal** | **Amcangyfrif o'r golled** |
|---|---|
| Tynnu'r or-elfen £15 yn y Lwfans Tai Lleol (LHA) | £312k |
| Cyfyngu ar faint mwyaf annedd lle mae Budd-dal yn daladwy i 4 ystafell wely | £457k |
| Rhoi cap ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol | Yr effaith wreiddiol oedd £884k, fodd bynnag oherwydd 9 mis o ddiogelu a chynnydd yn lefelau rhent, mae'r swm wedi gostwng i botensial o £400k ar gyfraddau LHA cyfredol |
| Cynnydd yn y symiau a dynnir o'r Lwfans Tai Lleol i'r sawl sydd ddim yn ddibynnol | Ystadegau gwirioneddol ddim ar gael oherwydd amrywiaethau o fewn y cynllun, fodd bynnag oddeutu £200k |
| Ymestyn y gyfradd rhannu ystafell i'r bobl sengl hynny dan 35 | £244k |
| Cyfanswm a dynnir o Fudd-dal Tai | £1.61m |
| Lleoleiddio Budd-dal Treth y Cyngor (CTB) | £1.66m |

**Colled bosibl o Fudd-dal Treth y Cyngor yn ôl Math o Hawliwr**

| Math o hawliwr (mae modd iddyn nhw gael eu cyfrif mewn mwy nag un grŵp) | Nifer | Budd-dal sy'n cael ei dalu | Colled flynyddol yr aelwyd ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|
| Plant o bob oed ar yr aelwyd | 2,800 | £2,440,000 | £148.14 |
| Plant dan 5 ar yr aelwyd | 1,192 | £1,038,000 | £148.04 |
| Rhieni Sengl (pawb) | 1,746 | £1,380,000 | £134.36 |
| Rhieni Sengl sy'n Gweithio | 554 | £353,000 | £108.32 |
| Personau dros 60 | 5,405 | £4,736,000 | £148.96 |
| Lwfans Gweini / DLA | 4,124 | £3,732,000 | £153.84 |

Cynllun Blaen Raglen Waith y Cyngor Sir

| Cyfarfod | Eitem (disgrifiad / teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Angen Penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)? | Awdur - Aelod arweiniol a swyddog cyswllt |
|---|---|---|---|---|---|
| **4 Rhagfyr** | 1 | Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol - Recriwtio | | | Linda Atkin |
| | 2 | Penderfyniad ar yr Ymateb i Archwilydd y Cynllun Datblygu Lleol | Penderfyniad ar ymateb i'r Archwilydd | Oes | Graham Boase |
| | 3 | Datganiad Diwygiedig o Egwyddorion o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 | | Oes | Graham Boase |
| | | | | | |
| **Gweithdy Cyllideb** 11 Rhagfyr am 2.00pm | | Gweithdy cyllideb i'r holl gynghorwyr i ddatblygu cyllideb 2013 / 14 | | Nac oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady |
| | | | | | |
| **8 Ionawr** | 1 | Polisïau a Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor** 21 Ionawr | 1 | Cyflwyniad Taith | Briffio cyffredinol ar waith Taith | Amherthnasol | Y Cynghorydd David Smith / Stuart Davies / Iwan Prys-Jones (Taith) |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **5 Chwefror** | 1 | Canllawiau Cynllunio Atodol, Gorllewin y Rhyl | | | Angela Loftus |

Cynllun Blaen Raglen Waith y Cyngor Sir

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen Penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)?** | **Awdur - Aelod arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| **26 Chwefror** | 1 | Canllawiau Cynllunio Dros Dro Ffermydd Gwynt | | | Graham Boase |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor** 11 Mawrth | | | | | |
| | | | | | |
| **9 Ebrill** | | | | | |
| | | | | | |
| **Briffio'r Cyngor** 22 Ebrill | | | | | |
| | | | | | |
| **7 Mai** | | | | | |
| | | | | | |

**Cyfarfodydd y Dyfodol**

| **Dyddiad:** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen Penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)?** | **Awdur - Aelod arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|

Cynllun Blaen Raglen Waith y Cyngor Sir

| **Dyddiad:** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen Penderfyniad y Cyngor (oes / nac oes)?** | **Awdur - Aelod arweiniol a swyddog cyswllt** |
|---|---|---|---|---|
| Briffio'r Cyngor (dyddiad i'w gadarnhau) | Cyflwyniad gan y Swyddog Tai Gwag | Cynigiwyd gan y :Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 1 Rhagfyr 2011 i hysbysu am swyddogaeth ac amcanion y swydd | Nac oes | i'w gadarnhau |

## *Nodyn ar gyfer swyddogion - Terfynau Amser Adrodd y Cyngor Llawn*

| *Cyfarfod* | ***Terfyn Amser*** | *Cyfarfod* | ***Terfyn Amser*** | *Cyfarfod* | ***Terfyn Amser*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| *Tachwedd* | ***23 Hydref*** | *Rhagfyr* | ***20 Tachwedd*** | *Ionawr* | ***20 Rhagfyr*** |

Diweddariad 24/10/2012 - KEJ.

Rhaglen Waith y Cyngor doc

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

# Eitem Agenda 10

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag